# Ein Bro

Newyddion

Ysgol Bro Hyddgen

News









Hydref 2014 / Autumn 2014

# 2 Gair gan y pennaeth

Annwyl Rieni/Ofalwyr

Ar derfyn tymor prysur iawn, credaf fod uno dwy ysgol wedi digwydd yn llwyddiannus iawn gyda'r plant, y staff a'r rhieni yn cydweithio fel un.

Trefnwyd nifer o weithgareddau fel y gwelir yn y rhifyn hwn o Ein Bro:

- Casglwyd bocsys *Operation Christmas Child* i Belarws ar y ddau safle
- Cyfansoddwyd Cerdd Groeso i Eisteddfod Maldwyn a'r Cyffiniau pan aeth criw o'r Chweched Dosbarth i'r campws cynradd i arwain y gweithdy. Caiff yr eisteddfod ei chynnal ym Meifod ym mis Awst 2015
- Trefnodd un o grwpiau **Menter** y Chweched Dosbarth barti Calan Gaeaf, fel rhan o'u Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn y safle cynradd. Un o'r uchafbwyntiau oedd cystadleuaeth y bwmpen orau
- Mae aelodau o staff yn cyfarfod yn wythnosol i gyd-gynllunio: o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4
  - Mae cydweithio agos hefyd wedi digwydd rhwng Ysgol Bro Hyddgen a'r Ffederasiwn Ysgolion (Carno, Llanbrynmair a Glantwymyn)
- Hoffwn longyfarch y plant a'r staff o'r safle cynradd am eu cynnyrchiad Nadolig ardderchog o **Nadolig y Rwla**
  - Cafwyd tri pherfformiad mewn awyrgylch gartrefol braf: un i'r plant ieuengaf yn y cylch Meithrin a'r Feithrinfa Gymunedol; un i weddill y plant cynradd ac un arall i Blwyddyn 7
  - Cynhaliwyd dau berfformiad i'r rhieni gyda'r neuadd yn orlawn bob tro
- Erbyn hyn mae'n bosib defnyddio'r cyfrifiaduron ar y ddau safle gyda'r gwaith yn cael ei gadw ar weinydd ffeiliau canolog. Bydd hyn yn galluogi i'r plant gael mynediad i'w gwaith ar y ddau gampws. Hoffwn ddiolch i Tomi Rowlands, Tom Sedgeman a John Behnan am eu gwaith i sicrhau bod hyn yn llwyddiant. Mae ychydig o waith i'w wneud ar y system ffôn yn y dyfodol agos
- Bwriedir gweithredu'r system anfon negeseuon tesun i'r campws cynradd a mabwysiadu system wobrwyo debyg i'r un uwchradd
  - Byddwch fel rhieni yn derbyn neges destun yn eich hysbysu am ddigwyddiadau o ddydd i ddydd yn yr ysgol a hefyd os yw eich plentyn yn haeddu canmoliaeth am waith rhagorol neu am ymdrech arbennig
  - Bwriedir hefyd greu system wobrwyo ar gyfer y campws cynradd lle mae'r plant yn cael eu gwobrwyo am ymdrech dda, gwaith rhagorol ac ati
  - Bydd mwy o fanylion am hyn yn y flwyddyn newydd

**Presenoldeb**

Hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth gan fod cyfradd presenoldeb yr ysgol ar hyn o bryd dros 95% sef targed yr ysgol am eleni.

Erbyn hyn mae ffocws Llywodraeth Cymru wedi; yn y gorffennol roedd y pwyslais ar geisio lleihau nifer y disgyblion sydd yn absennol heb ganiatâd. Erbyn hyn ffocysir ar unrhyw absenoldeb, boed hyn gyda chaniatâd a'u peidio. Mae rhai ohonoch wedi derbyn llythyron yn mynegi pryder bod eich plentyn wedi bod yn yr ysgol am lai na 90% o'r amser. Mae'r llywodraeth yn ein hannog i rannu'r tabl isod gyda'r holl rieni.

| Presenoldeb eich plentyn | Canllawiau Cenedlaethol |
|---|---|
| 95 - 100% | Siawns orau o gyflawni potensial. Mae eich plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu. |
| 90 - 95% | Boddhaol. Mae'n bosib bydd angen i'ch plentyn gymryd amser i ddal i fyny gyda gwaith. |
| 85 - 90% | Achos pryder. Cyfateb i golli hanner diwrnod yr wythnos. Mae'n bosib bydd eich plentyn yn tangyflawni. |
| 80 - 85% | Achos pryder. Mae'n bosib bydd angen i'ch plentyn dderbyn cymorth ychwanegol i ddal i fyny gyda gwaith. |
| Yn is na 80% | Mae hyn yn cyfateb i golli diwrnod yr wythnos. Mae perygl bydd eich plentyn yn colli allan ar addysg eang a chytbwys. |

Rwyf yn gobeithio y byddwch yn parhau i'n cefnogi ar y mater hw. Cofiwch fod pob dydd yn cyfrif a does dim amser da i gymryd gwyliau yn ystod y tymor.

**Y Corff llywodraethol**

Erbyn hyn mae'r Corff Llywodraethol wedi cyfarfod ddwy waith; hoffwn ddiolch i bob aelod o'r corff am roi o'u hamser i gefnogi'r ysgol. Dyma restr o'r aelodau ar y corff:

| Categori | Enw | Categori | Enw |
|---|---|---|---|
| Rhiant | Rob Goodsell | Pennaeth | Dafydd Jones |
| Rhiant | Sarah Lewis | Athro | Alwyn Jones |
| Rhiant | Huw Morgan | Athro | Catherine Lloyd Williams |
| Rhiant | Alun Jones | Staff | Ann Rapley |
| Rhiant | Rhys Bleddyn | Y Gymuned | Allan Wynne Jones |
| Awdurdod Lleol | Cyng Dai Jones | Y Gymuned | Angharad Behnan |
| Awdurdod Lleol | Cyng Michael Williams | Y Gymuned | Nia Lewis |
| Awdurdod Lleol | Y Parch. Kath-leen Rogers | Y Gymuned | Llion Pughe |
| Awdurdod Lleol | Cyng Gwilym Fychan | Yn Arsylwi | Anwen Pughe Jones Gwenfair Glyn |

Hoffwn ddiolch i'r staff am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn gyffrous yma; i'r plant am ymddwyn mor dda ac i chi rieni am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymunaf Nadolig Llawen i chwi oll.

**Dafydd M B Jones**
Pennaeth

# Word from the headteacher



*Dear Parent/Carers*

*At the end of a very busy term, I believe that we have successfully merged the two schools; good cohesion has been achieved with staff, children and parents working together as one.*

*Many activities have been co-organised as seen in this edition of* ***Ein Bro***

- *Christmas boxes for the* ***Operation Christmas Child*** *for Belarus were collected on both sites*
- *The pupils studying Welsh in the Sixth Form held a workshop in the primary school in order to compose a welcoming poem for the Maldwyn and the vicinity Eisteddfod, to be held in Meifod in August 2015*
- *The Year 12 Enterprise group organised a Halloween party on the primary site as part of their Welsh Baccalaureate Qualification; this included a best pumpkin competition*
- *Members of staff from both primary and secondary sectors have been meeting on a weekly basis to plan schemes of work, from the Foundation Phase all the way through to Key Stage 4*
    - *Close co-operation has also been established between Ysgol Bro Hyddgen and The Federation Schools (Carno, Llanbrynmair and Glantwymyn)*
- *I would like to congratulate the primary school children and staff for their excellent Christmas production of* ***Nadolig y Rwla***
    - *Three performances were staged for the pupils themselves: one for the youngest children in the Cylch Meithrin and Community Nursery; another to the rest of the primary school children and yet another for Year 7 pupils*
    - *Two performances were held for the parents with the hall packed full on both occasions*
- *It is now possible for children and staff to use computers on both sites with the files being saved centrally on our new file servers*
    - *I would like to thank Tomi Rowlands, Tom Sedgeman and John Behnan for their work. Whilst there are still some teething problems with the phone system, we are hopeful that they will be sorted in the near future*
- *The text messaging system will be extended to the primary sector along with a rewards system, similar to the secondary pattern*
    - *As parents you will receive messages to inform you about day to day events and your child's successes, including good effort and excellent work. More details will follow in the new year*

***Attendance***

*I would like to thank you for your support in ensuring that the school's percentage attendance record stands at just over 95% - the school's target for the year.*

*The Welsh Government has recently changed its focus regarding attendance; in previous years the focus was on unauthorised absence. However, in order to improve attendance levels and to decrease absenteeism across the board, the focus is now on all absences. Some of you may have received letters expressing concerns that your child's attendance has been less that 90%. The Welsh Government would like the table below to be shared with all parents.*

| *Your child's attendance* | *National Guidelines* |
|---|---|
| *95 – 100%* | *Optimum chance to achieve well. Your child is taking full advantage of every learning opportunity.* |
| *90 – 95%* | *Satisfactory. Your child may have to spend time catching up with work.* |
| *85 – 90%* | *Cause for concern. This is equivalent to missing half a day of school per week. Your child may be at risk of underachieving.* |
| *80 – 85%* | *Cause for concern. Your child may need extra support from you to catch up with work.* |
| *Below 80%* | *This is equivalent to missing one day of school per week. Your child may be missing out on a broad and balanced education.* |

*I hope you will continue to support the school in this matter, bearing in mind that every day counts and that there is never a good time to take holidays when your child should be at school.*

***The New Governing Body***

*By now the new Governing Body has met twice; I would like to thank every member of the board for giving of their time in order to support the school. Here is a list of the board's members:*

| *Category* | *Name* | *Category* | *Name* |
|---|---|---|---|
| *Parent* | *Rob Goodsell* | *Head Teacher* | *Dafydd Jones* |
| *Parent* | *Sarah Lewis* | *Teacher* | *Alwyn Jones* |
| *Parent* | *Huw Morgan* | *Teacher* | *Catherine Lloyd Williams* |
| *Parent* | *Alun Jones* | *Staff* | *Ann Rapley* |
| *Parent* | *Rhys Bleddyn* | *Community* | *Allan Wynne Jones* |
| *Local Authority* | *Councillor Dai Jones* | *Community* | *Angharad Behnan* |
| *Local Authority* | *Councillor Michael Williams* | *Community* | *Nia Lewis* |
| *Local Authority* | *Rev. Kathleen Rogers* | *Community* | *Llion Pughe* |
| *Local Authority* | *Councillor Gwilym Fychan* | *Observer Status:* | *Anwen Pughe Jones*<br>*Gwenfair Glyn* |

*I would like to thank the staff for their hard work during this exciting year; the children for their excellent behaviour and you the parents for your continued support and assistance during the year and I wish you all a happy Christmas.*

***Dafydd M B Jones***

*Headteacher*

# Gair gan y Swyddogion Presenoldeb Cynradd
# Gair gan y Prif Ddisgyblion Uwchradd

Shana Lewis a Huw Hickman o'r Cyngor Ysgol campws cynradd yn helpu gwella presenoldeb.




## Campws Cynradd

Ar y campws cynradd mae Shana Lewis a Huw Hickman o'r Cyngor Ysgol yn gweithio'n galed gyda'r athrawon dosbarth ar wella canran Presenoldeb trwy gasglu data'n wythnosol a'i gyflwyno yn y Gwasanaeth Llwyddiant ar bnawn Gwener.

Bydd y dosbarth gyda'r canran uchaf o bresenoldeb yn ennill y darian, ac yn cael dewis gweithgareddau ychwanegol – Amser Aur.

Mae gwella presenldeb mewn ysgolion yn flaenoriaeth gan ERW, ac mae'r ysgol yn dilyn gweithdrefnau absenoldebau ERW. Mae presenoldeb yn gyfrifoldeb ysgol gyfan. Mae presenoldeb yn un o brif ddangosyddion lles. Bydd pob absenoldeb oherwydd gwyliau yn cael ei gyfrif fel absenoldeb anawdurdodedig. Canran Presenoldeb Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd yw 95.15%. Targed Presenoldeb Ysgol Bro Hyddgen yw 95%.

## Campws Uwchradd

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu dweis yn Brif Ddisgyblion Ysgol Bro Hyddgen campws uwchradd;

Harri Hughes (Dirprwy) Lleu Bleddyn (Prif Ddisgybl) a Lliwen Jones (Dirprwy).

"Yn dilyn chwe mlynedd hapus iawn yn Ysgol Bro Ddyfi, rwyf nawr yn edrych mlaen i fy mlwyddyn ola – a'r flwyddyn bwysicaf un, yn Ysgol Bro Hyddgen. Rwy'n falch iawn o gael bod yn rhan o'r ysgol yma, ac yn ddiolchgar o gael bod yma, yng nghwmni ffrindiau, disgyblion ac athrawon brwdfrydig a chefnogol.

Wrth edrych yn ôl ar fy amser yn yr ysgol rhaid dweud mai cael fy newis yn gapten tim rygbi Blwyddyn 8 yr ysgol yw'r uchafbwynt hyd yma: fi, y lleiaf yn y tim, yn arwain pymtheg o fechgyn mwy ymlaen i'r cae. Dyna i chi wefr fydd yn aros gyda mi am byth.

Carwn gydnabod yma fy mod wedi cael llawer iawn o gyfleoedd yn yr ysgol ac wedi mwynhau'r ystod eang o brofiadau rwyf wedi eu hennill.

Mae'r profiadau a'r cyfleoedd hyn wedi chwarae rhan bwysig yn fy mywyd ac wedi dylanwadu ar y penderfyniadau a'r dewisiadau yr wyf wedi eu gwneud, a'r rhai y byddaf yn eu hwynebu yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae bod yn Brif Ddisgybl yn her, yn her y byddaf yn edrych ymlaen i'w hwynebu, ond hefyd yn her y gallaf ei hwynebu gyda balchder, o wybod fod y blynyddoedd diwethaf ym Mro Ddyfi, wedi fy mharatoi ar gyfer y flwyddyn sydd o'm blaen ym Mro Hyddgen a thu hwnt."

**Lleu Bleddyn**

# A word from the Primary Attendance Monitors
# A word from the Secondary Head Pupils

Prif ddisgyblion Ysgol Bro Hyddgen

Campws Uwchradd 2014-2015

Harri Hughes (Dirprwy) Lleu Bleddyn (Prif Ddisgybl) a Lliwen Jones (Dirprwy)



## Primary Campus

*On the primary campus Shana Lewis and Huw Hickman from the school council have been working hard with the classroom teachers to improve the attendance percentage by gathering weekly data and present the results in the weekly success assembly on Friday afternoon.*
*The class with the best attendance percentage will win the attendance shield and get to choose the additional activities from "Amser Aur"*

*Improving attendance in schools is a focus by ERW and our school follow ERW procedures. Attendance is a whole school focus and approach as attendance is a key indicator in wellbeing in schools. Each absence due to a holiday during term time is classed as a unauthorised absence. The attendance percentage of Ysgol Bro Hyddgen is currently 95.15% ; the school target is 95%.*

## *Secondary Campus*

*Congratulations to the following for being elected as head pupils of Ysgol Bro Hyddgen.*
*Harri Hughes (Deputy) Lleu Bleddyn (Head Pupil) and Lliwen Jones (Deputy)*
*Following six happy years in Ysgol Bro Ddyfi I am now looking forward to my last and most important year at Ysgol Bro Hyddgen. I am very happy to be a part of this school and very thankful to be here with my friends, pupils and supportive teachers.*
*Looking back at my time in the school I must admit that being chosen to be the captain the rugby team in year 8 was the most memorable event as it was a privilege to lead the team to the field, even though I was by far the smallest in height!*
*As I look back I am thankful for all the opportunities I have had in the school and the enjoyment of participating in a wide range of activities and the experiences I have gained.*
*These experiences and the opportunities have played an important part in my life and have affected my decisions in life but also prepared me for the important decisions I need to make in the next few months about my future.*
*Being head pupil has been a challenge but one that I have approached with pride knowing that my last few years in Ysgol Bro Ddyfi has prepared me for my final year in Ysgol Bro Hyddgen and beyond.*

***Lleu Bleddyn***

# Croeso i Flwyddyn 7!

Dyma farn rai o ddisgyblion Blwyddyn 7 eleni yn ysgrifennu am eu profiadau ar y campws Uwchradd dros y misoedd diwethaf:



Rydw i yn hoffi'r ysgol uwchradd oherwydd bod yr athrawon yn glên ac mae gennyf lawer o ffrindiau newydd . Y peth nad ydwyf yn hoffi yw bod yr ysgol yn fawr a bod rhaid symud o gwmpas i bob gwers . Ar ôl tua mis yn yr ysgol rydym wedi cael cynnig mynd i Oakwood ac rwy'n lwcus oherwydd rwy'n cael mynd.

Catrin Pughe

Mae'r ysgol uwchradd yn grêt, yn hwyl ac yn gyffrous! Roedd pawb yn amau y byddai'r athrawon yn gas a'r gwaith yn anodd, ond dydi o ddim. Mae'r athrawon i gyd yn garedig iawn ac os ydych yn gwrando arnyn nhw byddan nhw'n gwrando arnoch chi. Mae dechrau ysgol uwchradd neu ysgol newydd yn brofiad gwahanol a chyffrous.

Yn fy niwrnodau cyntaf doeddwn ddim yn siŵr o gwbl i ddweud y gwir, ond mae popeth yn iawn. Mae'r gwaith yn ddigon i herio eich hun ond ddim gormod. Doeddwn i ddim yn sicr am y gwaith cartref achos rwy'n gwneud llawer o nofio, felly does gennai ddim llawer o amser, ond o wneud tipyn bach bob nos byddwch yn iawn. Rwy'n mwynhau ysgol uwchradd yn fawr. Codi yn y bore yw'r peth anoddaf i fi ond rwy'n mwynhau.

Morgan Campbell

Roeddwn yn teimlo'n reit nerfus wrth aros am y bws, doeddwn i erioed wedi cael bws i'r ysgol o'r blaen.

Eisteddais ar y bws gyda Morgan, roedd hi'n dechrau ym mlwyddyn saith hefyd.

Aethom i gyd i'r neuadd, a chwrddais â gweddill fy ffrindiau o Ysgol Glantwymyn. Roedd hi'n anodd cofio ble roedd y gwersi i ddechrau, ond erbyn diwedd yr wythnos, roeddwn i'n gwybod fy ffordd o amgylch.

Erbyn hyn, rydw i wedi gwneud nifer fawr o ffrindiau newydd ac wrth fy modd.

Eiry Lewis.



# Welcome Year 7!

Here are some quotes we have had from our new Year 7 on their first few weeks at the secondary campus.



*I really enjoy the secondary school because all the teachers are very nice and I have a lot of friends. What I don't like about the school is that it is very big and you have to move around each lesson. After about a month in the school I had the opportunity to go to Oakwood and I am very lucky to have had  that chance.*

*Catrin Pughe.*

*The secondary school is good fun and exciting! Everyone said that the teachers are nasty and the work is hard, but that is not the case. The teachers are all very kind and if you listen to them they will listen to you. Starting a new school or secondary school is very exiting.*

*In my first week I was not sure about meeting the head teacher at all or the other teachers to be honest, but everything was fine. The work is very challenging but manageable. I was not sure about homework as I do a lot of swimming and I don't have much spare time but by doing a little bit every night I am fine.*

*Getting up in the morning is hard, but I am enjoying myself.*

*Morgan Campbell*

*I am feeling very nervous while waiting for the bus, I have never had to wait for the school bus before.*

*I sat on the bus with Morgan, she was starting year seven also.*

*We all went to the hall and I met my other friends from Ysgol Glantwymyn. It was very hard to remember where the lessons would be held , but by the end of the week I knew my way around.*

*By now I have made many new friends.*

*Eiry Lewis*



# Yr Adran Ddaearyddiaeth
# Geography Department



Bu disgyblion TGAU Blwyddyn 10 Mrs Eirian Davies yn brysur yn hogi eu sgiliau fel newyddiadurwyr yn ddiweddar. Buont yn cystadlu mewn Cystadleuaeth 'Adroddwyr Ifanc yr Amgylchedd', a drefnywd gan y grŵp Cadwch Gymru'n daclus. Dywedodd Gruffydd Behnan, " Rydym wedi dysgu llawer iawn am y Cynllun Amddiffyn Arfordirol yn Borth, ac wedi deall pwysigrwydd amddiffyn Cors Fochno". Roedd y disgyblion hefyd wedi cael cyfle i holi barn trigolion y Borth ynglŷn â'r Cynlluniau Amddiffyn. (Diolch i Mr Biffin am ei gymorth!) Mae'r Adroddwyr ifanc, rhwng 11– 21, yn cael y cyfle i archwilio problemau a materion amgylcheddol a chynnig atebion iddynt ar ffurf adroddiad, ffilm fer neu drwy luniau. Bu rhai enillwyr y gorffennol yn ddigon ffodus i ymweld â Japan!

*Year 10 GCSE Geography pupils in Mrs Eirian Davies' class have been busy honing their investigative journalism skills. Lately, they have competed in a Young Reporters for the Environment Competition, run by the Keep Wales Tidy group. Richard Peach said, "We have learnt a lot about the Coastal Defence System at Borth, and we have realised the importance of protecting Cors Fochno." The pupils also had an opportunity to gauge the opinion of local residents— many thanks to Mr Biffin for assisting with this. Young Reporters, aged between 11 and 21, investigate environmental issues and problems and propose solutions through investigative reporting, photographic or video journalism. Previous winners have won a trip to Japan !*

# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

| | |
|---|---|
| 11/2/15 | Eisteddfod Ddawns Cylch Bro Ddyfi/Bro Ddyfi Dancing Eisteddfod |
| 07/03/15 | Eisteddfod Gylch Bro Ddyfi/Bro Ddyfi Eisteddfod |
| 11/03/15 | Eisteddfod Ddawns Sir/County Dancing Eisteddfod |
| 21/03/15 | Eisteddfod Sir/County Eisteddfod |

| | |
|---|---|
| 5/1/15 | Diwrnod Di-ddisgybl / Non pupil day |
| 6/1/15 | Ysgol yn ail-agor ar ôl gwyliau'r Nadolig / School re-opens after Christmas break. |
| 7/1/15 – 16/1/15 | ARHOLIADAU ALLANOL / EXTERNAL EXAMINATIONS |
| 19/1/15 | Adroddiadau Llawn Bl 9/Yr 9 Full Reports<br>Noson Rieni Bl 11 / Yr 11 Parents Evening |
| 26/1/15 | Noson Rieni Bl 10 / Yr 10 Parents' Evening |
| 2/2/15 | Noson Hyrwyddo'r 6ed / 6th Form Promotion Evening/<br>Adroddiadau Cynnydd Bl. 12 / Yr 12 Interim Reports |
| 9/2/15 | Adroddiadau Llawn Bl 12 / Yr 12 Full Reports |
| 16/2/15 – 20/2/15 | Hanner tymor / Half term |
| 23/2/15 | Ysgol yn ail-agor ar ôl hanner tymor / School re-opens after half-term |
| 23/2/15 | Noson Rieni Bl 9 / Yr 9 Parents' Evening |
| 2/3/15 | Ffug brofion Darllen/rhif / Reading/numeracy mock tests. |
| 9/3/15 | Arholiadau mewnol Bl 10 / Yr 10 Internal Exams<br>Profion dosbarth Bl 12/13 / Yr 12/13 Class tests |
| 16/3/15 | Noson Rieni Bl 12/13 / Yr 12/13 Parents' Evening<br>Adroddiad cynnydd Bl 11 / Yr 11 Interim Report<br>Arholiadau mewnol Bl 7 – 9 / Yr 7 – 9 Internal Exams |
| 23/3/15 | Noson Rieni Bl 7 / Yr 7 Parents' Evening<br>Arholiadau mewnol Bl 7 – 9 / Yr 7 – 9 Internal Exams |
| 27/3/15 | Diwrnod di-ddisgybl / Non pupil day |
| 13/4/15 | Ysgol yn ail-agor ar ôl gwyliau'r Pasg / School re-opens after Easter holidays. |
| 20/4/15 | Adroddiadau cynnydd Bl 7 - 9 / Yr 7 – 9 Interim Reports |
| 27/4/15 | Adroddiadau cynnydd Bl 12 a 13 / Yr 12 and 13 Interim Reports<br>Profion Cenedlaethol Rhif a Darllen – Uwchradd / National Reading and Numeracy Tests – High School Campus |
| 8/5/15 – 23/6/15 | ARHOLIADAU ALLANOL / EXTERNAL EXAMINATIONS |
| 25 /5/15 – 29/5/15 | Hanner tymor / Half term |
| 1/6/15 | Ysgol yn ail-agor ar ôl hanner tymor / School re-opens after half-term |
| 15/6/15 | Adroddiadau llawn Bl 7 ac 8 |
| 17/7/15 | Diwrnod ola'r tymor / Last day of term |

# 10 Croeso i Blant Newydd

## Gabriel



Dw i'n hoffi chwarae efo Lego efo Morgan

*I like to play with lego with Morgan – Gabriel*

## Cadi



Dwi'n hoffi darllen llyfrau Rala Rwdins

*I like to read Rala Rwdins books*

## Neve



Dwi 'n hoffi actio'n stori Elen Benfelen

*I like to act in Elen Benfelen*

## Lili



Dw i'n hoffi chwarae yn y tywod

*I like to play in the sand*

## Lisa



Dw i'n hoffi chwarae tren efo Logan, Cadi a Lewis

*I like to play train with Logan, Cadi and Lewis*

## Ella



Dwi 'n hoffi chwarae efo'r clai

*I like to play with clay*

# Welcome New Pupils

## Logan



Dw i'n hoffi bwyta brechdanau efo Lili amser cinio

*I like to eat sandwiches with Lili at lunch time*

## Leila



Dw i'n hoffi chwarae cuddio tu allan efo Hallie a Selkie

*I like to play hide and seak with Hallie and Selkie*

## Selkie



*Dw i'n hoffi eistedd a gwrando ar Miss Lois*

*I like to sit and listen to Miss Lois*

## Hallie



Dw i'n hoffi cymryd rhan yn y Cyngerdd Nadolig

*I like to take part in the Christmas con-cert*

## Molly



Dwi 'n hoffi chwarae efo'r beiciau a'r ceir tu allan

*I like to play with the bikes and the cars outside*

## Caelan



*Dw i wrth fy modd yn gweithio ar y cyfrifiadur*

*I love working on the computer*

# Bro Hyddgen yn Barod i Bobi

Blwyddyn 7 - 1af: Eiry Lewis

Blwyddyn 8 - 1af: Myfanwy Fenwick

Blwyddyn 9 - 1af: Hanna Eiddon

Blwyddyn 10-13 – 1af: Lleu Bleddyn

Staff: Mrs Karyl Davies

Enillydd 2014: Hanna  Eiddon



Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn yn ystafell goginio campws Uwchradd Bro Hyddgen wrth i gynrychiolwyr o bob blwyddyn wynebu ei gilydd mewn gormes gogyddol danllyd a welodd cacennau nas gwelwyd mo'u tebyg yn ardal Bro Ddyfi o'r blaen!

Wedi llwyddiannau ysgubol blynyddoedd 7,8 a 9, tro blwyddyn 10, y Chweched Dosbarth a'r staff oedd hi i blesio'r beirniaid craff, Mrs Caryl Morgans a Mrs Meinir Davies.  Bu'r ddwy'n ddiwyd yn hogi eu blasbwyntiau ers misoedd, ac unwaith eto dymuna Bwyllgor Bake Off Bro Hyddgen ddiolch i'r ddwy am eu gwaith diflino.  Dymuna'r Pwyllgor ddiolch hefyd i Mrs Catrin Hughes fu wrthi'n ddiwyd yn hyfforddi a chynghori'r cystadleuwyr brwd.

Cafwyd cacennau diddorol iawn gan aelodau hŷn yr ysgol gyda chanmoliaeth uchel yn cael ei roi i gacen Guinness Cai Lewis a chacen Zebra Mr Owen. Yn ôl y beirniaid roedd cacen Mr Dafydd Jones yn haeddu clod hefyd er iddo anghofio'r jam yn y canol!

Crewyd fideo hwyliog o bob rownd ac mae modd eu gweld ar dudalen Facebook yr ysgol neu ar y wefan.

Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb fuodd yn cystadlu a dymuniadau da iawn i bob un oedd yn ymgiprys am y teitl anrhydeddus – 'Pobydd Gorau Bro Hyddgen 2014':

Wedi wythnosau o baratoi, daeth noson y ffeinal i Fro Hyddgen wrth i enillwyr y rowndiau blaenorol ddangos eu doniau pobi am yr ail dro. Rhoddwyd cyfle hefyd i'r rhai hynny a ddaeth yn agos at ddod i'r brig geisio unwaith eto am y wobr gyntaf.

Bu'r rowndiau blaenorol yn gyfnod o gystadlu ysgafn a hwyliog ond gellid torri'r tensiwn â chyllell fenyn noson y ffeinal. Roedd pawb ar eu gorau a phob un yn llawn sylweddoli mai trwch blewyn yn unig a oedd rhyngddynt â'r teitl anrhydeddus – 'Pobydd Gorau Bro Hyddgen 2014'.

Roedd y beirniad, Mr Alwyn Evans, wedi ei blesio'n arw gan yr unigolion talentog ac fe dderbyniodd bawb adborth ganddo. Dymunwn fel ysgol ddiolch iddo am ei waith caled ac am roi o'i wirfodd i feirniadu.

Cafwyd noson hynod lwyddiannus ond wrth gwrs, dim ond un oedd yn cael dod i'r brig. Llongyfarchiadau mawr i Hanna Eiddon o flwyddyn 9 ar gael ei choroni'n fuddugol eleni.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi rhoi o'u gwirfodd i feirniadu, i hyfforddi ac i flasu'r cynhyrchion gorffenedig dros yr wythnosau diwethaf. Roedd hi'n bleser gweld ein pobwyr ifanc yn hogi eu doniau ac yn mwynhau. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y gystadleuaeth nesaf!

# Ysgol Bro Hyddgen Bake Off

Year 7-1st Eiry Lewis

Year 8-1st Myfanwy Fenwick

Year 9-1st Hanna Eiddon

Blwyddyn 10-13 -1st  Lleu Bleddyn

Staff: Mrs Karyl Davies

Winner 2014: Hanna Eiddon



*It has been a very busy time in the food technology department at the secondary campus at Ysgol Bro Hyddgen with representatives from each year challenging each other in a bake off that the Bro Ddyfi area has not seen before!*

*After the success of Years 7,8 & 9 it was Year 10, the Sixth Form and the staff's turn to impress the judges, Mrs Caryl Morgans and Mrs Meinir Davies. With their keen taste buds they were ready for the next stage of the competition. The bake off committee  would like to thank both ladies for their hard work not forgetting Mrs Catrin Hughes for training and mentoring the challengers.*

*We had a lot of interesting cakes for the older members of the school and a lot of compliments on Cai Lewis's Guinness cake and Mr Owen's Zebra cake. The judges also mentioned that Mr Dafydd Jones's cake was also very good despite him forgetting to add the jam in the middle!*

*A video of each round was made  and can be seen on Facebook and the school website.*

*After weeks of preparation, the night of the final came with the winners from the previous rounds coming together to show their talents for the second time.*

*In the final, you could cut the tension with a butter knife. A complete contrast to the sportsmanship and mild humour of the previous round.*

*Everyone was at their best and it was a very close competition were everyone fought for the title of "Best Baker Ysgol Bro Hyddgen 2014".*

*The judge, Mr Alwyn Evans was very pleased with the talented individuals and everyone had feedback from him. We as a school would like to thank him for his hard work in coming to judge this very tasty competition.*

*We had a very successful evening, but of course ther can only be one winner. This year the title was given to Hanna Eiddon in Year 9 and she was named  Best Baker for 2014.*

*Thank you to everyone who  volunteered to help with the work over the past few weeks. It was a pleasure to see everyone enjoying themselves and developing their cooking skills over the past few weeks. We're ooking forward to the next competition already!*



# 14 Glan-llyn

## Trip Pontio 2014

## Glan Llyn

## Transition Trip 2015



Mwynheais fynd i Lan-llyn am benwythnos. Roedd yn llawn cyffro. Roedd y daith yn un hwyliog. Ar ôl noson ddi-gwsg daeth y bore a'r gweithgareddau. Fy hoff weithgaredd oedd adeiladu rafft. Ar ôl i'r rafft gael ei chwblhau roedd yn bryd mynd ar y llyn. Roeddwn yn gweddïo na fyddai'r rafft yn suddo. Roeddwn wedi mwynhau'r dringo. Fe is i fyny'r wal ddwsinau o weithiau ac roedd fy mreichiau yn brifo. Ar ôl penwythnos llawn hwyl a chwerthin roeddwn yn barod i fynd adref i fy nhŷ clyd.

Ianto Duggan.

*I enjoyed going to Glan–llyn for the weekend. It was full of excitement. The trip was enjoyable. After a sleepless night the morning came and with it the activities. My favourite activity was raft building. After making a raft, it was time to take it out on the lake. I was praying that the raft would not sink. I enjoyed the climbing. I went up the climbing wall a few times and my arms were hurting. After a weekend full of fun and laughing I was ready to go home!*

*Ianto Duggan*

# British Legion - Gwobrwyo



Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth llenyddol y Llynges Brydeinig. Mae modd cael cipolwg ar y gwaith buddugol mewn rhifyn arbennig o **Dathlu ein Doniau.**

*Thank you to everyone who contributed to the World War 1 Writing Project.*

# Noson Agored blynyddoedd 5 a 6.



Cafwyd noson lwyddiannus iawn yn Ysgol Bro Hyddgen nos Fawrth 7[ed] Hydref i gyflwyno'r profiad o fod yn flwyddyn 7 i ddarpar ddisgyblion. Cafodd nifer helaeth o blant yr ardal gyfle i gwrdd â'r athrawon, cerdded o amgylch yr ysgol ynghyd â chymryd rhan mewn gwersi. Roedd yr holl ddarpar ddisgyblion yn cael y cyfle i arbrofi yn yr adran Wyddoniaeth, defnyddio offer ymarferol gyda Mr Tegid Owen yn y Bloc Technoleg a llawer iawn o gemau a phosau di-ri mewn pynciau eraill. Nodwyd rhai o'r pethau gorau am y noson gan rieni gan gynnwys y cyflwyniad a gafwyd gan Mr Dafydd Jones, y Prifathro yn y neuadd ar ddechrau'r noson, y gweithgareddau gyda'r plant yn y dosbarth, yr arbrofion yn y bloc gwyddoniaeth ,yn ogystal â chwrdd ag athrawon. Diolch i'r holl staff am eu hymdrechion ac edrychwn ymlaen at groesawu blwyddyn 7 newydd yn y flwyddyn sydd i ddod.

*We had a very successful night in Ysgol Bro Hyddgen on Tuesday 7[th] October to show what experience year 7 has to offer. Everyone had the opportunity to meet the teachers, walk around the school and take part in lessons. All of the volunteer students helped with the experiments in the science department and used practical skills with Mr Tegid Owen in the technology block with many more activities going on in the other subjects. It was noted by the parents that the best parts of the evening were the presentation by Mr Dafydd Jones, the head teacher in the hall at the start of the night, activities with the pupils in the classroom, the science department experiments, and also meeting the teachers. A big thank you to all the staff for their efforts and we look forward to welcoming the new Year 7 in the coming year.*

# Hwyl yr Ŵyl

Hoffai'r chweched dosbarth i gyd ddiolch i Cai Lewis am ei waith caled yn trefnu parti Nadolig gwisg ffansi ar eu cyfer yn y clwb rygbi. Cafwyd canmoliaeth uchel i'r myfyrwyr gan y Clwb Rygbi ble cynhaliwyd y parti am eu hymddygiad a'r gwaith paratoi.

*The sixth form would like to thank Cai Lewis for his hard work in organising the sixth form fancy dress Christmas Party in the rugby club.*



# 16 Fixers

## Myfyrwyr Ysgol Bro Hyddgen yn helpu i gael gwared ar yr ofn o ddechrau ysgol newydd



Mae symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn gallu bod yn gyfnod brawychus, felly bu grŵp o fyfyrwyr wrthi yn creu ffilm i chwalu'r poenau ac i hwyluso'r profiad o symud.

Yr unig beth wnaeth y straeon a glywodd Oliver Lanz, 17, a'i grŵp o ffrindiau o Ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth, oedd gwaethygu eu hofnau a'u pryderon am y stres o gychwyn mewn ysgol newydd.

I waredu'r pryderon hynny, bu'r grŵp wrthi yn gweithio gyda Fixers – elusen sy'n cefnogi pobl ifanc 16-25 oed i fynd i'r afael ag unrhyw fater sy'n bwysig iddyn nhw, yn eu ffordd nhw – i greu ffilm i chwalu camsyniadau ac i helpu myfyrwyr Blwyddyn 6 i integreiddio.

“Mae pawb yn teimlo'n bryderus,” meddai Oliver. “Ro'n i'n bryderus. Y noson cyn, dydych chi ddim yn cysgu digon, rydych chi ar ddi-hun, ac yn meddwl ‘beth sy'n mynd i ddigwydd?’, a ‘beth ddylwn i ei wneud?’ drosodd a throsodd.

“Des i a'm ffrindiau at ein gilydd i drafod yr hyn rydym yn ei gofio o'n pryderon.

“Gan weithio gyda Fixers, rydym wedi troi hyn yn ffilm i helpu plant ysgol gynradd Blwyddyn 6 i deimlo'n llai pryderus am fynd i'r ysgol uwchradd.”

Mae’r ffilm, sydd ar ffurf cwestiwn ac ateb, yn gymysgedd o animeiddio a chyfweliadau gyda phedwar disgybl Blwyddyn 7. Mae’r ffilm yn dilyn merch sydd yn trafod pam bod hi'n pryderu, ac mae’r pedwar disgybl yn ateb ei chwestiynau ac yn herio’r mythau.

“Mae gan y ferch hon yr un pryderon cyffredin â phob plentyn arall,” meddai Oliver. “Mae'r pedwar myfyriwr yn ateb ei chwestiynau ac yn ei helpu i ymlacio drwy ddweud wrthi am beidio â phoeni a'i fod yn brofiad hawdd iawn.”

“Byddwn yn gwneud fersiynau o'n ffilm yn Gymraeg a Saesneg.”

Mae Catrin Hughes, Pennaeth Blwyddyn 7 yn Ysgol Bro Hyddgen, yn meddwl y bydd hyn yn help mawr i fyfyrwyr sy'n dod i fyny o'r ysgol gynradd.

“Mae'n wych i'r ysgol ei hun ac i'r holl athrawon,” meddai. “Mae'n gwneud yr ysgol yn lle hapusach ac mae'n gwneud y disgyblion llawer hapusach hefyd.”

Mae Oliver a'i ffrindiau'n gobeithio dangos y ffilm yn yr ysgolion cynradd. Dywed Oliver: “Y neges sylfaenol yw bod pawb yn yr un sefyllfa a'ch bod yn mynd i dreulio'r pum mlynedd nesaf gyda'r bobl hyn, felly man a man i chi beidio â phoeni a bwrw ati.”

Mae Fixers yn gweithio gyda phobl ifanc ledled y DU. Mae pob Fixer yn cael ei gefnogi gan dîm o arbenigwyr creadigol o fewn yr elusen i gynhyrchu adnodd er mwyn cyfathrebu'r neges o'u dewis. Mae llawer o bobl ifanc yn dewis creu ffilm fer, gwefan, ymgyrch posteri, taflen wybodaeth, neu gynnal digwyddiad neu fflachdorf.

Mae Fixers eisoes wedi cefnogi mwy na 13,900 o bobl ifanc ledled y DU i gael llais go iawn yn eu cymunedau.

Gyda Fixers, mae pobl ifanc wedi ymgyrchu dros faterion sy'n amrywio o seiberfwlio, hunan-niwed, hunanladdiad a'r angen am fwy o garedigrwydd di-ofyn.

# Fixers

## Powys students helping to remove the fear of starting a new school



*The transition from primary to secondary school can be a terrifying time, so a group of students are creating a film to bust the myths and help ease the move.*

*Oliver Lanz, 17, and his group from Ysgol Bro Hyddgen in Machynlleth, remember hearing rumours that only made their own fears and worries worse.*

*So they have been working with Fixers – a charity that supports young people aged 16-25 to tackle any issue that matters to them, however they choose – to create a film to break down misconceptions and help Year 6 students integrate.*

*"Everyone feels anxious," says Oliver. "I did. The night before you don't get enough sleep, you're awake, and constantly thinking 'What's going to happen? What do I do?"*

*"My friends and I came together to talk about what we remembered and our worries.*

*"Working with Fixers, we are turning this into a film to help Year 6 primary school children feel less worried about going to secondary school."*

*The question and answer style film will be a mix of animation and interviews with four previous Year 7 students. It will follow a girl talking about why she is worried and the students answering her questions and challenging myths.*

*"The girl has got all the normal worries that every child has," says Oliver. "The four students answer her questions and help her relax by telling her not to worry and that it is really simple.*

*"We'll do versions of our film in English and in Welsh."*

*Catrin Hughes, Head of Year 7 at Ysgol Bro Hyddgen, thinks it will really help students coming up from primary school.*

*"It's great for the school itself and all the teachers," she said, "It makes the school a happier place and it makes the pupils a lot happier as well."*

*Oliver and his friends hope to show the film in primary schools. He said: "The underlying message is everyone is in the same boat and you are going to spend the next five years with these people, so you may as well not worry and just get on with it."*

*Fixers works with young people across the UK. Each Fixer is supported by the charity's in-house team of creative professionals in producing a resource to get their chosen message across. Many young people choose to create a short film, website, poster campaign, information leaflet, or hold an event or flashmob.*

*Fixers has already supported over 13,900 young people across the UK in creating an authentic voice in their community.*

*Young people have campaigned with Fixers on issues as diverse as cyber-bullying, self-harm, suicide and the need for more random acts of kindness.*

*Fixers aims to work with over 70,000 young people aged 16 to 25 by 2020 to help them to take action and tackle the issues they feel strongly about and to do this it needs to raise funds. Visit www.fixers.org.uk for more information.*

# 18 Lesotho

## Hanes Miss Haslam!

## Miss Haslam’s trip to Lesotho!




Roeddwn yn falch iawn o glywed fy mod wedi cael fy newis i gymryd rhan yn y **Rhaglen Lleoli Athrawon Lesotho** ac ni allaf aros i ymweld â De Affrica ym mis Ionawr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cefais fy ysbrydoli i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol er cof am ffrind agos iawn i mi, Miss Mared Elfyn, ac rwy’n meddwl bod y gwaith anhygoel mae’r sefydliad Dolen Cymru yn ei wneud yn adleisio ei natur caredig hi.

Rwy’n credu y bydd y lleoliad hwn yn gyfle perffaith i fi brofi diwylliant newydd ac i ddatblygu fel athrawes ac i helpu eraill.  Rwy’n gobeithio hefyd i barhau i adeiladu’r cyswllt rhwng Ysgol Bro Hyddgen a’r ysgol gynradd yn Qacha’s Nek.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Mr Dafydd Jones ac i Lywodraethwyr yr ysgol am gefnogi fy nghais, ac rwy’n edrych ymlaen i ddychwelyd i’r ysgol ym mis Mehefin nesaf i rannu’r hyn y byddaf wedi ei ddysgu.

I was delighted to learn of my selection to take part in the **Lesotho Teacher Placement Programme** and I can’t wait to visit South Africa in January.

*During the last year, I have been inspired to undertake charity work in memory of my close friend Miss Mared Elfyn and I think the life changing work of the Dolen Cymru organisation perfectly echoes her kind-hearted nature.*

*I think this placement will be a perfect opportunity for me to experience a new culture, develop as a teacher and help others. I also hope to continue building the link between Ysgol Bro Hyddgen and the primary school in Qacha’s Nek.*

*I would like to take this opportunity to thank Mr Dafydd Jones and the school governors for supporting me in my application. I look forward to returning to the school next June to share all I will have learned.*

# TAG






Ddydd Mercher diwethaf, 5ed o Dachwedd cafodd naw disgybl o flwyddyn naw gyfle i fod ar raglen deledu 'Tag'. Cafodd pawb gyfle i drafod Cheryl Cole a'i pherfformiad ar yr X Factor. Gofynnwyd i bawb, "Beth oeddet ti'n ei feddwl am Cheryl Cole yn meimio ar  X Factor?" Roedd llawer o atebion diddorol gan y naw disgybl, Rhys, Dafydd, Stefan, Sol, Callum, Adam, Macsen a ni'n dwy, Ffion ac Aur. Gwnaethon ni fwynhau mynegi'n barn ar y teledu. Roedd barn pawb yn wahanol. Cafodd y rhaglen ei darlledu ar 'TAG' ar S4C am 5 o 'r gloch nos Wener 7fed o Dachwedd.
Ffion ac Aur

*Last Wednsday, the 5th of November, 9 pupils had the opportunity to go on the TV program "Tag". Everyone had the chance to discuss the topic of Cheryl Cole and her performance onthe X Factor. We were asked, "What do we think about Cheryl Cole's miming on the X Factor?" There were lots of interesting answers from the 9 pupils, Rhys, Dafydd, Strefan, Sol, Callum, Adam, Macsen and ourselves, Ffion and Aur. We enjoyed voicing our opinion on television and everyone's opinion was diffrent. The programme was brodcast at 5pm on Friday 7th of November.*
*Ffion and Aur*

# Côr Ieuenctid Cymru

Llongyfarchiadau i Aron a Lliwen o'r 6ed dosbarth ar gael eu dewis i fod yn aelodau o Gôr Ieuenctid Cymru. Rydym fel ysgol yn falch iawn o'ch llwyddiant ac yn dymuno'n dda i chi fel aelodau'r côr anhygoel hwn.

*Congratulations to Aron & Lliwen for being chosen as members of the Wales National Youth Choir. Da iawn chi.*



# Menter: Gêm bêl-droed i'r deillion



Fel rhan o gymhwyster Gweithio Gydag Eraill y Bac a hybu Cymreictod ac ymwybyddiaeth am chwaraeon i'r deillion yng Nghymru cynhalwyd cyfres o gemau pêl droed yn y ganolfan hamdden, Machynlleth ar y 24ain o Hydref gan ein grŵp menter. Aelodau'r grŵp oedd Aron, Joel, Rebecca a Faye. Bu timoedd o 5 yn brwydro yn erbyn ei gilydd gan gynnwys tîm hynod o alluog yr athrawon oedd yn cynnwys Miss Erin Good, Miss Anna Davies, Mr Tegid Owen, Mr Llifon Ellis a Mr Aled Myrddin. Roedd pennaeth yr ysgol, Mr Dafydd Jones ar law i ddyfarnu'r gêm. Yn chwarae yn erbyn yr athrawon roedd timau o aelodau amrywiol blynyddoedd 10 a 12. I sicrhau fod y gemau mor realistig a phosib roedd pob aelod ond am y gôl-geidwad yn gorfod gwisgo mwgwd a felly'n dibynnu ar eu clyw i leoli'r bêl, oedd a clychau ynddi. Arweiniodd hyn at ambell i olygfa ddiddorol wrth i'r bêl rolio yn araf o gwmpas y neuadd a phawb yn cicio'r awyr. Un o'r cyfrifoldebau anoddaf i Mr Jones oedd sicrhau nad oedd aelodau yn twyllo trwy geisio edrych o dan y mwgwd, roedd rhai o'r gynulleidfa yn amau nad oedd rhai o'r athrawon wedi llwyddo gwneud hyn erbyn y diwedd. Sgoriwyd ambell gôl gofiadwy fel saethiad arbennig Mr Owen yn erbyn blwyddyn 12 er mai dim ond y gynulleidfa oedd yn gallu tystio i ba mor dda oedd y gôl mewn gwirionedd.

Roedd Harri Hughes (Dirprwy Brif Ddisgybl) hefyd yn rhan o'r digwyddiad trwy sylwebu yn drwyadl ar uchafbwyntiau'r cystadlu ac ychwanegu hiwmor i'r naws cystadleuol llawn tensiwn oedd yn llenwi'r neuadd. Roedd Harri hefyd yn cynnal cyfweliadau gyda aelodau o'r tîmau gwahanol a'r gynulleidfa, ar y cyfan roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ac yn cynnwys sylwadau fel:

"Dyma un o'r digwyddiadau mwyaf diddorol a gwahanol sydd wedi eu cynnal gan y chweched hyd yn hyn".

# Menter: Blind Football





A football tournament was held in Machynlleth leisure centre on the 24th of October by our Mentor Group. It fulfils part of the Welsh Bac. qualification **Working with Others,** raises awareness of blindness in Wales and develops Welsh language use. Members of the Group included; Aron, Joel, Rebecca and Faye. Teams of 5 competed against each other including one Very Intelligent Group, the teachers, including Miss Erin Good, Miss Anna Davies, Mr Tegid Owen, Mr Llifon Ellis a Mr Aled Myrddin. The head teacher of the school Mr Dafydd Jones was at hand to referee the game. Playing against the teachers were teams including pupils from years 10, 11 and 12. To ensure the games were as realistic as possible every player apart from the goal keeper had to wear a blindfold and relied on their hearing to control the ball. A special ball with bells inside it was used for the games.

This led to some interesting situations with the ball rolling around the hall and everyone kicking the ball into the air. One of the hardest responsibilities for Mr Jones was to ensure that no one was cheating and looking through the blindfold. Some of the audience did have their suspicions as to who the real cheats were. Many memorable goals were scored, not least Mr Tegid Owen's goal against Year 12. Legend!

Harry Hughes (Deputy Head Pupil) also played a part in the event by working as commentator. His unique twist of humour added greatly to this very exciting event. Harry also took interviews with different team members and the audience. On the whole the feedback was very good. One interviewee suggested, "This is one of the most interesting events that the sixth form have held in a while."

# 22 Prosiect Sinffonia Cymru

## Cyngerdd yn Ysgol Bro Hyddgen fel rhan o Brosiect Sinffonia Cymru



Rydym ni fel ysgol bellach yn rhan o brosiect pum mlynedd gyffrous gyda Sinffonia Cymru o'r enw Crescendo ynghyd â phedair ysgol arall yng Nghymru. Y nod o ran y Sinffonia oedd adeiladu a hybu chwarae cerddorfaol mewn ysgolion uwchradd. Mae'r prosiect yn cael ei noddi gan Gyngor y Celfyddydau. Daeth Mark Eager, yr arweinydd atom dair gwaith, dwywaith yn cynnal gweithdai gyda band yr ysgol ac yna am y trydydd tro gyda'i gerddorfa sef 18 aelod o Gerddorfa Cymru. Roedd hi'n brofiad anhygoel a swreal i gael y cyfle i chwarae mewn cerddorfa ymysg offerynwyr proffesiynol a phrofiadol. Eu bwriad nhw oedd rhannu'r profiad gyda ni tra'n ein haddysgu ar y run pryd. Diddorol hefyd oedd gweld a chlywed yr offerynnau sydd ddim yn cael eu chwarae gan ddisgyblion yr ysgol yn y gerddorfa fel y bas ddwbl, ffidl, fiola a'r basŵn.

Bûm yn ymarfer trwy'r prynhawn yna am 7 o'r gloch nos Iau cawsom y cyfle i chwarae gyda'r gerddorfa. Chwaraeon ni dri darn gyda'r gerddorfa sef Autumn: Vivaldi, Ain't Misbehaving: Waller a Radetsky March: Strauss. Fe chwaraeodd y gerddorfa ddarnau adnabyddus oedd yn rhoi gwefr i'r noson. Yn ogystal â hyn cafodd tri ohonom y cyfle i chwarae fel unawdwyr gyda'r gerddorfa yn cyfeilio oedd yn brofiad anhygoel. Roeddwn i (Rhian Griffiths) yn perfformio Winter gan Vivaldi ar y ffliwt ac yna'n ymuno gyda Dafydd Duggan i berfformio trefniant ar gyfer deuawd piano a cherddorfa o Sabre Dance gan Khachaturian. Perfformiodd Gruffydd Behnan drefniant Cornet a Cherddorfa o Softly Awakes My Heart gan Saint-Saens.

Felly roedd y profiad yn un rhyfedd ond cwbl anhygoel. Roedd hi'n brofiad gwych i offerynwyr profiadol yr Ysgol yn ogystal ag offerynwyr dibrofiad yr ysgol. Roedd disgyblion yno nad oedd wedi meddwl am chwarae offerynnau cyn y prosiect hwn heb sôn am chwarae gydag offerynwyr proffesiynol. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yn adran yr Offerynnau Taro a oedd yn cynnwys amrywiaeth ddiddorol o offerynnau swnllyd drudfawr! Roedd hi'n ddiddorol gweld sut oedd offerynwyr yn gweithio o diwnio i chwarae i ryngweithio gyda'i gilydd. Yn sicr roedd hi'n brofiad bythgofiadwy. Rydym mor ddiolchgar i Mrs Llio James am gael y cyfle i fod yn rhan o brosiect Crescendo ac i Mrs Sally Marshall (Chwythbrennau) a'r holl athrawon teithiol eraill sy'n dod i'n hysgol sef Philip Pryce (Pres) Kay Davies (Telyn) a Steffan Jones (Taro) am ein hyfforddi i'r fath safon.

Rydym ni yn gobeithio gweithio gyda Mark Eager a'r gerddorfa yn y dyfodol ac yn edrych ymlaen yn barod!

# Welsh Sinfonia Project



## Concert in Ysgol Bro Hyddgen as part of Welsh Sinfonia Project



*Currently Bro Hyddgen, along with four other schools in Wales, is part of 'Crescendo' an exciting five year project with the Welsh Sinfonia. The goal is to build and promote orchestral playing in secondary schools. The project is sponsored by the Arts Council. Mark Eager, the conductor visited twice to hold workshops with the school band and visited a third time with his orchestra of 18 members from the Orchestra of Wales. It was an amazing and surreal experience to have the opportunity to play in an orchestra with professional and experienced players. Their intention was to share their experience with us whilst teaching us at the same time. It was also interesting to see and hear the instruments that are not played by the pupils in the orchestra, for example the double bass, violin, viola and bassoon.*

*We practiced all afternoon, then at 7 o'clock on Thursday evening we had the opportunity to play with the orchestra in a special concert. We played three pieces with the orchestra Vivaldi's Autumn, Waller's Ain't Misbehaving, and Strauss's Radetsky March. The orchestra also played well-known pieces that gave the night a real buzz. In addition to this, three pupils were given the opportunity to play as soloists with the orchestra accompanying which was an amazing experience. Rhian Griffiths performed Vivaldi's Winter on the flute befor being joined by Dafydd Duggan in performing a duet arrangement for piano and orchestra of Sabre Dance by Khachaturian. Gruffydd Behnan also performed an arrangement of Softly AwakesMy Heart on the Cornet with the Orchestra.*

*So the experience was one weird but totally amazing. It was a great experience for experienced players as well as the inexperienced players in the school. Before this project there were pupils who had not even thought about playing instruments let alone playing with professional musicians. This was most evident in the Percussion section which included an interesting variety of noisy and expensive instruments! It was interesting to see how the players work, from their initial tuning to their musical interaction. Certainly it was an unforgettable experience. We are so grateful to Mrs Llio James that gave us the opportunity to be part of the project and to Mrs Sally Marshall (Wind) and all the other traveling teachers Philip Pryce (Brass) Kay Davies (Harp) and Steffan Jones (Percussion) for training us to such a standard.*

*We hope to work with Mark Eager and the orchestra in the future and we are already looking forward to it!*

# Twrnament Pêl-droed a Phêl-rwyd



Llongyfarchiadau i'r holl blant fu'n cymryd rhan.

Congratulations to all pupils for taking part.




Ddydd Mawrth, 21ain o Hydref bu nifer fawr o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-rwyd a phêl-droed yr Urdd.

Roedd tri thîm o'r ysgol yn cystadlu yn y twrnament pêl-rwyd ynghyd â thimau o Ysgol Carno, Ysgol Glantwymyn ac Ysgol Llanbrynmair. Gwelwyd gemau cyffrous, gydag un tîm o'r ysgol yn llwyddo i ennill pob un o'i gemau. Bydd y tîm hwn yn mynd ymlaen i'r ail rownd yn erbyn ysgolion Maldwyn yn y Gwanwyn.

Cafodd dau dîm pêl-droed o'r ysgol hwyl dda yn y gystadleuaeth yn erbyn Ysgol Carno ac Ysgol Glantwymyn. Bydd y ddau dîm yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd nesaf yn y Gwanwyn.

*On Tuesday the 21st of September a large number of students in year 5 and 6 took part in the Urdd's football and netball competition.*

*There were three teams in the school competing in the netball tournament with teams from Ysgol Carno, Ysgol Glantwymyn, and Ysgol Llanbrynmair. We saw some exicting games with one of the teams from our school winning a game. This team will be going forward to the next round in the winter term.*

*Two football teams from our school had a very good game against Ysgol Carno and Ysgol Glantwymyn. Both of these teams will also be going into the next round in the winter.*

# Parti Calan Gaeaf





Bu criw hwyliog o ddisgyblion Blwyddyn 12, Ysgol Bro Hyddgen, sef Grŵp 2 Menter yn cynnal Parti Calan Gaeaf ar gyfer disgyblion blwyddyn 4,5 a 6 y campws cynradd.

Roeddynt wedi gweithio'n galed iawn yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau difyr megis paentio wynebau, dowcio afalau, addurno cacennau, creu masgiau, taro'r targed a nifer o weithgareddau amrywiol eraill, megis cwrdd â Mistar Urdd. Cynhaliwyd cystadleuaeth am y Bwmpen Addurnedig Orau a chafwyd sawl pwmpen hynod ddiddorol.

Roedd hwn y gyfle arbennig i ddisgyblion hŷn Ysgol Bro Hyddgen i ddod i adnabod y disgyblion iau. Roedd y digwyddiad yn rhan o waith y disgyblion ar gyfer Bagloriaeth Cymru.

Diolch i Beca, Rhian, Naomi, Anna, a gweddill Grŵp 2 Menter am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd wrth ddarparu digwyddiad trwy gyfrwng y Gymraeg.

*A group of Year 12 pupils from Ysgol Bro Hyddgen (group 2 in the Menter) held a Halloween party for years 4,5 and 6 on the primary campus.*

*They worked hard to arrange many activities including face painting, apple dunking, cake decorating, creating masks, aiming at targets and many others, including meeting Mr Urdd. There was a competition to decorate a pumpkin. There were plenty of interesting designs to be seen.*

*This was a good opportunity for the secondary pupils in Ysgol Bro Hyddgen to meet their fellow primary pupils. The work carried out was part of the Welsh Baccalaureate.*

*A big thank you to Beca, Rhian, Naomi, Anna and the rest of Menter Group 2 for their hard work in preparing and carrying out this event.*





# Diwrnod Plant Mewn Angen

Ar gyfer plant mewn angen fe fu'r chweched yn casglu arian. Er mwyn gwneud hyn fe gynhaliodd y disgyblion gystadleuaeth "Mastermind Bro Hyddgen", lle roedd Lliwen Jones a Harri Hughes yn cyflwyno cwis yr athrawon yn erbyn y staff. Roedd yn gystadleuaeth hwyliog, efo enillwyr pob rownd yn symud ymlaen i'r rownd nesa a'r collwr yn cael llond wyneb o hufen. Ar ôl 7 rownd, fe goronwyd Mr Llifon Ellis yn bencampwr, ac yn ennill teitl "Mastermind Bro Hyddgen", ond dim heb gael llond wyneb o hufen iddo yntau hefyd wrth gwrs!

For Children in nNed the sixth form have been raising money by creating their own Bro Hyddgen Mastermind" competition. Lliwen Jones and Harri Hughes presented the show and it was truly an entertaining event. Before each contestant could move onto the next round, the loser of the round had a face full of cream! After 7 rounds Mr Llifon Ellis was the winner without every having had a face full of cream!





# Eisteddfod Ffermwyr Ifanc



Llongyfarchiadau mawr i'n cyn ddisgyblion, disgyblion presennol a'r staff fu'n cystadlu yn Eisteddfod ffermwyr ifanc ar Tachwedd 15. Hefyd llongyfarchiadau mawr i Erwan a Dyfan o flwyddyn 10 a ddaeth yn fuddugol gyda'u deuawd doniol yn y 'steddfod

*Congratulations to our present and past pupils (and some staff!) who competed in the Young Farmers Eisteddfod on November 15th. Congratulations in buckets too are due to Erwan and Dyfan from Year 10 who came first with their "deuawd doniol."*

# Trip yr Urdd i Oakwood

"Rwy'n argymell y trip yma i ddisgyblion blwyddyn saith ac wyth y dyfodol."

Myfanwy Fenwick

*"I would recrommend this trip to other pupils in Year 7 and 8 next year. "*



Am wyth o'r gloch y bore roedd grŵp o blant Ysgol Bro Hyddgen i'w gweld tu allan i'r gatiau'r ar fore dydd Sadwrn.  Rhai o ddisgyblion blwyddyn saith ac wyth oedd wedi cael y fraint o fynd ar drip i Oakwood, y parc antur yn Sir Benfro. Roedd talu am y trip yn cynnwys costau aelodaeth i'r Urdd.  Roedd hi'n fore eithriadol o rewllyd ac ar ôl cymhlethdodau gyda'r bws cychwynnon ni.
Roedd hi'n drip pleserus iawn ac wedi tipyn o amser cyrhaeddon ni. Ar ôl i ni gyrraedd, dyma staff yr Urdd yn sicrhau bod pawb gyda ffrind i grwydro o gwmpas. Cychwynon ni i gyd a'r cyffro'n byrlymu gan gynyddu drwy'r amser.  Ymgasglodd nifer ohonon ni gan syllu'n awchus ar ffrâm y 'rollercoaster' Megaphobia. Roedd y mecanwaith yn SYFRDANOL!!!  Roedd y reid yn rhyfeddol ac yn hollol wych. Roedd cyflymder y reid yn syndod o'r fath orau. Yn dilyn hyn roeddwn yn awyddus i ddechrau crwydro. Ac yn y cyfamser dechreuodd hi lawio.
Yna dyma ni'n bwyta'n cinio yn awchus ac roedd y glaw wedi cilio a'r haul wedi dod allan.  Fe roddwyd dewis, sef i ddod a phecyn bwyd i'r parc neu gael pryd o fwyd yn un o'r caffiau.  Wedi bwyta dyma ni'n crwydro o gwmpas am ychydig  a dyma lawer ohonon ni yn cwrdd ar bwys un o'r reidiau cyflymaf, mwyaf ac uchel sef 'Speed'.  Aeth llawer o ddisgyblion ar 'Speed' ac mae'n brofiad delfrydol i barc antur gorau Cymru. Yna wedi hyn dyma ni'n cwrdd â'r staff ar y llecyn a ddewiswyd y tu allan i'r siop. Ac wedi llawer o bendroni wrth ymweld â'r siop dyma ni'n dringo ar y bws.
Wedi taith llawn hwyl dyma ni'n dychwelyd i'r man ble roeddwn ni wedi ymgynnull. Oakwood yw un o'r tripiau Urdd gorau rwyf erioed wedi bod arno ynghyd â Llangrannog a Glan-llyn, ac yn sicr rwy'n argymell y trip yma i ddisgyblion blwyddyn saith ac wyth y dyfodol.

*At 8 on a Saturday morning, a Group of pupils from Ysgol Bro Hyddgen stood outside the school gates. Some were pupils in year 7 and 8. They had the plesure of going on a trip to Oakwood—a theme park in Pembrokeshire.*

*It was a very cold morning and off we went on the bus. It was a very enjoyable trip and after some time we arrived. After arriving, the Urdd staff ensured we were in groups of 2 or more. We all started to get exicted as time went on while we looked on the rollercoaster 'Megaphobia'. The ride was amazing! The speed of the ride was incredible. Following this we were very eager to start wandering but by this time it had started to rain.*

*We then went to eat our lunch and during this time the rain stopped and the sun came out. We had been given the choice of bringing our own lunchbox or buying  food in one of the cafes. After eating our lunch we started to wander again and we went on a few other very fast rides. The best one was the largest, tallest and fasterst 'Speed'. A lot of us went on this ride which is very well known attraction in the theme park.  After this, we went to meet the staff and we went to the giftshop and then climbed back onto the bus.*
*It was a action packed trip and we left the bus where we had all started from in the morning for Oakwood. It was one of the best trips that the Urdd has arranged and I would recommend this trip to other pupils in Year 7 and 8 next year.*

# Trip yr Urdd – Cymru yn erbyn Bosnia



Trip yr Urdd – Cymru yn erbyn Bosnia




Ddydd Gwener 10fed Hydref aeth 26 o ddisgyblion Ysgol Bro Hyddgen lawr i Gaerdydd i gefnogi Cymru yn erbyn Bosnia yn eu gêm holl bwysig ar y daith i Ffrainc 2016. Gêm ddi-sgôr oedd hi ond roedd y gêm yn llawn cyffro wrth i beldroediwr drytaf y byd Gareth Bale ddod yn agos at sgorio mwy nac unwaith. Buodd Bosnia yn agos ar adegau hefyd ac oni bai am waith arbennig Wayne Henessey yn y gôl byddai'r daith wedi bod yn un siomedig iawn.

Dw i'n siŵr ei bod yn wir dweud bod pawb wedi mwynhau'r daith ac wedi mwynhau bod yn rhan o'r dorf enfawr o dros 30,000 o gefnogwyr angerddol yn cefnogi eu gwlad tan y funud olaf. Da hefyd oedd gweld angerdd chwaraewyr Cymru tuag at chwarae dros eu gwlad. Ni all dyn ond teimlo bod yna obaith i Gymru yn yr ymgyrch hon, a dw i'n siŵr bod y gefnogaeth gan ddisgyblion Ysgol Bro Hyddgen yn erbyn Bosnia wedi helpu!

*On Friday the 10th of October 26 pupils from Ysgol Bro Hyddgen went to Cardiff to support Wales in the Wales VS Bosnia football match as Wales make their very important journey to France 2016. It was a no score game but the most expensive footballer in the world Gareth Bale came very close to scoring a few times. Bosnia was also very close on a few occasions but without the excellent work from Wayne Henessey in the goal the journey would have been a very disapointing one.*

*We can safley say that everyone enjoyed their trip and being a part of over 30,000 supporters cheering their home county on until the very last minute. It was also very nice to see the dedication of the Welsh players.*

# Tacluso a chlirio EDEN



Tacluso a chlirio EDEN



Bu rhai o ddisgyblion Dosbarth 4/5T sydd yn aelodau o Gyngor yr Ysgol a'r Pwyllgor Eco-Sgolion yn cyd-weithio â Kim Williams, Swyddog Addysg Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn a nifer o wirfoddolwyr o archfarchnad y COOP ym Machynlleth i glirio a thacluso'r warchodfa natur fechan sydd gennym ar dir yr ysgol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf roedd llawer o ddrain, mieri a sbwriel wedi casglu, ac fe fu pawb wrthi'n ddygn trwy'r pnawn yn tacluso a chreu amrywiol lecynnau a chynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Diolch i Mrs Beryl Dixon o siop COOP Machynlleth am drefnu'r digwyddiad.

*Some of the pupils in class 4/5T, who are members of the school council and the eco committee, have been working with Kim Williams the schools education officer in Montgomeryshire for wildlife, and a number of volunteers in tidying up the small nature reserve we have on the school grounds.*

*Over the past year a lot of brambles and waste has built up and the pupils have been very busy tidying and creating new habitats for wildlife.*

*Thanks to Mrs Beryl Dixon and the COOP Machynlleth for organising the day.*



# Taith Patagonia Lleu Bleddyn



‘A’i chi yw criw yr Urdd, yr holl ffordd o Gymru?’



Daeth llais henaidd o ddrws tŷ y digwyddom ei basio. Roedd hi’n gyfnod siesta felly roedd y strydoedd yn dawel iawn yn y Gaiman. Roedd hanner y criw hefyd wedi penderfynu manteisio ar y cwsg ychwanegol ganol dydd. Roedden ni, yr hanner arall, wedi penderfynu heicio i fyny mynydd uwchlaw’r Gaiman yn yr haul tanboeth ganol dydd yng nghhwmni athrawon ‘Menter Patagonia’, Eluned Jones ac Iwan Madog.

Roedd pennau dwy ddynes yn gwyro allan o ddrws eu cartref. Felly fe gymron ni hoe o’n siwrnai nôl i Ganolfan Arturo Roberts i sgwrsio â nhw yng nghysgod eu cartref. Mrs Owena Owen a Mrs Ethel Williams oedd eu henwau ac Ethel yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 yr wythnos ganlynol. Daeth deigryn i’w llygaid pan ddechreuom ganu Penblwydd Llawen (Penblwydd Hapus ym Mhatagonia) iddi yn ogystal ag ambell emyn Gymraeg.

Er i mi fod yn paratoi am flwyddyn gyfan yn hel arian, trwy redeg hanner marathon a chynnal amryw o ddigwyddiadau, ar y trydydd dydd yn y Wladfa y sylweddolais yn wir pa mor lwcus oeddwn i o gael ymweld â’r wlad bell yma a finne mor ifanc. Doedd Owena nag Ethel erioed wedi bod yng Nghymru a’r ddwy yn medru siarad Cymraeg ac yn falch o’i thraddodiadau. Roedd teulu gan y ddwy yma yng Nghymru ond er bod eu chwiorydd nhw bellach wedi marw, doedd ‘run o’r ddwy wedi bod yn eu priodasau na’u hangladdau. Ond eto roedd y ddwy mor ddiolchgar o gael siarad â ni yn y Gymraeg, a sôn am eu cysylltiadau â Chymru.

Darlun bach iawn oedd hyn o ba mor groesawgar oedd pobl y Wladfa. Redden nhw’n gwirioni wrth gael cyfle i siarad Cymraeg â ni. Tybiaf mai cwrdd â’r henoed oedd un o’r uchafbwyntiau i mi yn yr Wladfa - hyd yn oed yn fwy na dysgu sut i ddawnsio gwerin a’r Tango mewn twmpathau dawns. Oherwydd roedd ein sgyrsiau, boed gyda’r ddwy ddynes yma, Eluned Gonzales neu Elis Williams yn cynnig darlun clir o ba mor anodd oedd bywyd yn y wlad trydydd byd yma. Doedd statws y Gymraeg ddim gwell yno na beth ydy hi yma gyda’r Sbaeneg yn aml yn oruwch i’r Gymraeg yno. Yn wir roedd cenhedlaeth gyfan yno oedd heb allu fawr iawn o’r Gymraeg. Er i ni gwrdd ag amryw o bobl ifanc oedd ag awydd am y Gymraeg yn y Gaiman a Threfelin, lleiafrif oedden nhw. Er roedd gwaith caled Menter Patagonia a’r Urdd yn amlwg wedi cael effaith, gyda’r plant yn gwirioni â ni wrth i ni ymweld ag ysgolion a chwrdd â phlant a phobl ifanc o bob oed.

Wrth fynychu Steddfod y Wladfa yn nhalaith Chubut, daeth yn amlwg i mi bod bwriad gwreiddiol Michael D Jones wedi ei gwireddu, sef i greu cofnod o draddodiadau bydd yn para am byth. Am ddeuddydd roedd y Gymansiwm yn llawn dop yn gwrando a chystadlu yn yr Eisteddfod. Roedd corau teulu, adrodd Cymraeg, Sbaeneg ac hefyd adrodd Goucho. Roedd corau capel, alaw werin, dawnsio gwerin a chystadleuaeth y gadair yn boblogaidd dros ben.

Byddai’n anghywir i mi ddod nôl i Gymru a dweud bod pawb yn y Wladfa yn medru siarad Cymraeg. Ond yr hyn a ddaeth yn amlwg i mi yn yr Eisteddfod wrth wylio’r cystadlaethau yma ac hefyd tra’n canu Calon Lân yn y Gymraeg a’r Sbaeneg mewn gwasanaeth yng Nghapel Bethel yn Nhrefelin, oedd balchder y bobl yn eu cysylltiadau tu hwnt i’r Môr Iwerydd a bod eu traddodiadau Cymraeg nhw cyn gryfed, os nad yn gryfach nag y mae nhw yma yng Nghymru.

Bu’r profiadau yn rhai bythgofiadwy ac hoffwn gymryd y cyfle yma i estyn diolch enfawr i bawb gyfranodd at fy nhaith.

Diolch yn fawr iawn.

# Operation Christmas Child

Eleni bu Dosbarth 10 Delyn, fel rhan o'u hamser gwirfeddoli, yn trefnu prosiect "Operation Christams Child". Nod y rhaglen oedd gyrru anghregion Nadolig i blant llai ffodus dramor. Hoffwn ddiolch i bawb yn y Campws Uwchradd a'r Cynradd oedd wedi cyfrannu gyda rhai yn gwneud bocs unigol a rhai o'r plant yn creu 1-2 bocs fel dosbarth. Gyrwyd bron i 100 o focsys llawn anrhegion rhwng y ddau safle! Da iawn chi!

*As part of their volunteering requirement of the Welsh Baccalaureate 10 Delyn helped to arrange operation Christmas child in the school this year. The aim of the programme is to give Christmas presents to children in countries which might not be able to celebrate Christmas this year. We would like to thank everyone in the primary and secondary campus who contributed to this worthy cause and to everyone who either made a box themselves or created a box as a class project during the registration period. Nearly 100 boxes full of presents were collected from both the primary and secondary campus. Excellent work!*












# Gwasanaeth Diolchgarwch

Ddydd Gwener, 24 Hydref, cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch gan ddisgyblion Dosbarth 4/5T, dan ofal Mrs Ann Eleri Thomas. Cafwyd cyflwyniad graenus ac amserol.

Gwnaed casgliad o £200 tuag at elusen deilwng iawn sef, Ambiwlans Awyr Cymru.

Ar derfyn y gwasanaeth cafwyd cyflwyniad gan Diana Rowlands am waith holl bwysig Ambiwlans Awyr Cymru.

*On Friday the 24th October an assembly was held by class 4/5T under the supervision of Mrs Ann Eleri Thomas. We had a very polished and timely assembly.*

*We collected £200 towards the air ambulance wales charity.*

*At the end of the assembly we had a presentation from Diana Rowlands on all the important work the Air Ambulance Wales does.*









# Cadw'n Ddiogel





Bu P.C. Mark Davies, Swyddog Cyswllt yr Heddlu yn yr ysgol Ddydd Gwener, 7 Tachwedd, yn siarad gyda disgyblion Blwyddyn 1 ar y thema **Pobl sy'n ein Helpu**, gyda disgyblion Blwyddyn 4 am **Ffrindiau**, a disgyblion Blwyddyn 6 am **Ddiogelwch wrth Ddefnyddio'r Rhyngrwyd**.
Diolch iddo am ei amser.

*P.C Mark Davies, the schools contact officer for the Police was in the school on Friday 7th of November to speak to pupils in Year 1 on the theme, "People Who Help Us", with Year 4 "Friends and Pupils" and Year 6 on "Dangers in Using the Internet.*

# Cerdd ar gyfer Eisteddfod 2015



Bu rhai o'r 6ed yn cynnal gweithdy barddoni gyda disgyblion Bl. 6 gogyfer creu cerdd groeso Eisteddfod Maldwyn yn ystod y tymor. Dyma gyfle gwych i'r disgyblion hŷn ddod i adnabod y rhai iau.



During this term, members of the six form helped year 6 pupils to write a poem welcoming the National Eisteddfod to the area. What a great way for the older pupils to get to know the youngsters!

# Cymraeg Ail Iaith

Bu disgyblion blwyddyn 7 ail iaith wrthi'n ddiwyd yn ddiweddar yn dysgu am yr ardal leol. Treuliwyd prynhawn yn troedio tref Machynlleth gan ddod i adnabod yr enwau Cymraeg sydd ar wahanol rannau o'r dref. Ar eu taith cafodd y disgyblion hefyd gyfle i ddefnyddio I-Pads yr ysgol i dynnu lluniau o'r adeiladau a'r golygfeydd hardd a fydd yn ddefnyddiol wrth gwblhau cywaith ar eu hardal.

*Year 7 Welsh second language pupils were given the opportunity to learn about the local area. The afternoon was spent walking around Machynlleth, learning the Welsh names for various places and attractions in the town. The pupils used the school's I-Pads to photograph important locations which will be used to complete their project on their local area.*










# Menter: Dodgeball





Diolch i ddisgyblion y 6ed dosbarth a drefnodd gystadleuaeth Dodgeball fel rhan o'u prosiect Menter. Bu'n brynhawn llwyddiannus tu hwnt.

Thank you to our 6th form students who organised a Dodgeball competition as part of their Enterprise project.

## Bore Coffi Macmillan



Ddydd Gwener 26 o Fedi cynhalwyd bore coffi Macmillan yn yr ysgol. Cawsom lond ein boliau o gacenau blasus a chodwyd £135 tuag at yr elusen cancr Macmillan. Bu rhai disgyblion y chweched dosbarth yn cwblhau oriau gwirfoddoli sy'n rhan o'u cymhwyster BAC Cymeig, wrth osod yr ystafell a gwerthu'r cacenau. Diolch yn fawr iawn i'r staff, disgyblion a rhieni a gyfrannodd at y digwyddiad llwyddiannus hwn.

On Friday the 26th of September a Macmillan Coffee morning was held in the school. We had a stomach full of cakes and raised £135 towards Macmillan cancer support. Some of the pupils in the sixth form were following the Welsh Bac qualification and this counted towards their volunteering hours. A big thank you to the staff, pupils and parents that contributed towards this successful event.

# Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE

**Rygbi – Pencampwyr**

Unwaith eto, cafwyd gemau cofiadwy yng nghyngrair rygbi Meirion a Dwyfor. Roedd ein timau o dan 14 ac o dan 16 yn cystadlu i guro'r gynghrair a chael y cyfle i fynd ymlaen i'r rownd nesaf. Cafwyd perfformiadau ardderchog gan nifer o'r chwaraewyr, ac fel y gwelir isod mae'r canlyniadau yn dangos yn glir fod talent i'w gael yma yn ein timau rygbi eleni.

**Ysgol Bro Hyddgen vs Ysgol Y Berwyn**

O dan 14 **47 - 7**

O dan 16 **34 - 12**

**Ysgol Ardudwy vs Ysgol Bro Hyddgen**

O dan 14 **17-21**

**Ysgol Uwchradd Tywyn vs Ysgol Bro Hyddgen**

O dan 14 **14-40**

O dan 16 **0 - 71**

**Ysgol Bro Hyddgen vs Ysgol y Gader**

O dan 14 **12-5**

O dan 16 ` **17-17**

**Pêl-droed – Cwpan Cymru**

**Ysgol Bro Hyddgen vs Llanidloes**

Blwyddyn 7 **2-4**

Blwyddyn 8 **1- 6**

Blwyddyn 9 **3-1**

**Ysgol John Beddoes vs Ysgol Bro Hyddgen**

Blwyddyn 7 3-1

Blwyddyn 8 5 - 0

Blwyddyn 9 1- 3

**Ffeinal Gogledd Powys Blwyddyn 9**

**Ysgol y Trallwng vs Ysgol Bro Hyddgen** 3 - 0

**Twrnament Pêl-droed Powys (8 bob ochr)**

**Blwyddyn 7**

6ed yn y Twrnament

**Blwyddyn 8**

5ed yn y Twrnament

**Blwyddyn 9**

2il yn y Twrnament

**Twrnament Pêl-rwyd Gogledd Powys (Dan 16)**

**Merched Bl.11**

**Llongyfarchiadau i Meinir Jones am gael chwaraewraig y Twrnament**

Curo Welshpool 5-9

Colli Drenewydd 9-7

Colli i Lanfyllin 15-9

Colli i Lanfair Caerenion 26-12

**Twrnament Pêl-rwyd y De Caerdydd**

Colli Glan Tâf - 15-9

Curo Cardiff High – 9-5



# Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE

*Rugby Chapionship*

*Once again we had a very memorable Rugby game in the Meirion and Dwyfor tournament. The under 14 and 16 teams were compeating to win the league.*

*We had amazing performances from many players in the team who showed clearly the talent that we have in our Rugby teams this year.*

*Ysgol Bro Hyddgen vs Ysgol Y Berwyn*

| | |
|---|---|
| *Under 14* | *47 - 7* |
| *Under 16* | *34 - 12* |

*Ysgol Ardudwy vs Ysgol Bro Hyddgen*

| | |
|---|---|
| *Under 14* | *17-21* |

*Ysgol Uwchradd Tywyn vs Ysgol Bro Hyddgen*

| | |
|---|---|
| *Under 14* | *14-40* |
| *Under 16* | *0 - 71* |

*Ysgol Bro Hyddgen vs Ysgol y Gader*

| | |
|---|---|
| *Under 14* | *12-5* |
| *Under 16* | *17-17* |

*Football—Welsh Cup*

*Ysgol Bro Hyddgen vs Llanidloes*

| | |
|---|---|
| *Year 7* | *2-4* |
| *Year 8* | *1- 6* |
| *Year 9* | *3-1* |

*Ysgol John Beddoes vs Ysgol Bro Hyddgen*

| | |
|---|---|
| *Year 7* | *3-1* |

Year 8 – 5 - 0

Year 9 – 1- 3

**North Powys Final Year 9**

**Ysgol y Trallwng vs Ysgol Bro Hyddgen:** 3 - 0

**Powys football turniment (8 a side)**

**Year 7 :** 6th in the tournament

**Year 8:** 5th in the tournament

**Year 9:** 2nd in the tournament

**North Powys Netball tournament (Under 16)**

**Girls: Year 11**

Congratulations to Meinir Jones for getting the title of sports person of the tournament

| | |
|---|---|
| Beat Welshpool | 5-9 |
| Lost to Newtown | 9-7 |
| Lost to Llanfyllin | 15-9 |
| Lost to Llanfair Caerenion | 26-12 |

**Netball tournament Cardiff:**

| | |
|---|---|
| Lost to Glan Taf | 15-9 |
| Beat Cardiff High | 9-5 |



# Llongyfarchiadau Callum!



Ar Dachwedd 14 cefais y cyfle i gynrychioli Cymru yn Iwerddon mewn cystadleuaeth Pool. Roeddwn i wedi cael fy newis i'r tim ar ôl mynd trwy nifer o gystadlaethau gyda 32 o bobl eraill.

Cefais fy newis oherwydd fy sgiliau ac hefyd fy mherfformiad. Roeddwn i wedi mynd i Iwerddon ar y fferi o Birkenhead. Roedd o wedi cymryd 10 awr i gyd oherwydd y tywydd garw. Ar ôl i fi gyrraedd Iwerddon, cefais y cyfle i aros mewn gwerty tair seren ac roedd y lleoliad y twrnament Pool yn arbennig o dda.

Roeddwn i yn cystadlu o Ddydd Sadwrn tan Ddydd Llun o 8:30yb i 11:30yh gyda dim ond 2 awr o egwyl. Ar y Dydd Llun roeddwn wedi llwyddo i fynd trwy i'r rownd cyn derfynol ac yna colli yn erbyn yr enillwyr yn y rownd yma.

Roeddwn i wedi ennill 19/35 yn y gemau. Roeddwn i wedi dod yn 3ydd yn y tabl canlyniadau sydd ddim yn ddrwg o gwbl wrth feddwl mai dyma'r tro cyntaf i mi gystadlu ac mai fi oedd yr unig aelod o Gymru. Roedd o yn deimlad gwych i chwarae dros Gymru, ac hefyd fi oedd y cyntaf o Fachynlleth i gystadlu a fi ydi'r ail aeloda ieuenga'r tim.

I went to the Pool Nations Cup in Ireland on Friday 14th November: I was representing Wales in pool. I was picked for the team having completed a series of trials: I was semi-finalist in the trials out of 32 people. I was chosen because of my good performance. I went to Ireland on the ferry from Birkenhead, a ten 10 hour crossing due to weather conditions. I arrived in Ireland and stayed in a 3 star hotel ; it was a lovely pool venue. This is my first ever time going away to represent Wales in pool. I played pool from the Saturday to the Monday from 8:30am-11:30pm with only around 2 hours break. On the Monday we managed to go through to the semi-finals eventually losing out to the eventual winners. I won 19/35 games which is more than 50% wins and came 3rd in our team stats'. For my first tournament this result wasn't too bad. I was the only player on my team that has never played for Wales before and it was a brilliant experience. Not only am I the first boy from Machynlleth to represent Wales in pool, but I was also the second youngest on the team. I t was a great experience; I hope I can represent my country again.

# Clwb Gwyddoniaeth





*On the 14th of October Harriet, Natalie, Jack and I went to the chemistry competition in Gregynnog. Nikki took us there and we all had a lot of fun. When we got there we where greeted by the other schools. We got free drinks and biscuits. We ate with the other schools and had a laugh with them. The first competition was against Penweddig. We unfortunately didn't get enough points to go through. Then we had a runners up competition. We all then walked around the grounds. We all then went for lunch. We were meant to pay for it but we didn't get asked for the money. We then found out the results to all the competitions. We were the runners up and we got £20 for winning that. We also got £15 for the crystal competition. Our presentation was very funny this is why we got the extra money.*
*We watched the final and we found that we could answer nearly all of the questions. We were devastated.*
*The final saw Penglais against Penweddig. Penweddig won in the final. In the end we all got some freebies and we were very pleased. The competition was called "Top of the Bench" and was run by the Royal Society for Chemistry.*

*Since then we have been helping run Science club on Thursday lunchtimes. Each week we have been doing different experiments. The very first was mixing corn flour and water which makes a non-Newtonian Liquid. If we made enough of it to fill a paddling pool we would be able to walk on it!*

1.10 yp. pob Dydd Iau yn yr ystafell Gemeg

1.10 pm. every Thursday in the Chemistry lab



# Gala Nofio Rhanbarth Maldwyn



## Llongyfarchiadau i bawb ddaru cymered rhan yn y gala nofio Rhanbarth Maldwyn



Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol ar eu llwyddiant yng nghystadleuthau nofio'r Urdd a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y Drenewydd.

Cipiodd Iestyn Evans, Aidan Roberts, Ioan Reading a Louis Roberts y wobr gyntaf yn y Ras Nofio Gyfnewid Rhydd i fechgyn blwyddyn 3 a 4. Cipiodd Beca Jones, Lara Halfpenney, Jenna Rymer a Bethan Byrne y wobr gyntaf yn y Ras Gyfnewid Rhydd ar gyfer merched blwyddyn 3 a 4.

Bydd y disgyblion uchod yn cynrychioli'r rhanbarth yng Nghaerdydd ar 24 Ionawr, 2015.

Pob lwc i chi bois! Ardderchog!

Daeth disgyblion eraill hefyd i'r brig –

Llongyfarchiadau i Iestyn Evans ar gipio'r drydedd wobr yn y gystadleuaeth Nofio Cefn i fechgyn blwyddyn 3 a 4.

Llongyfarchiadau i Gwern Phillips, Huw Hickman, Joe Williamson, a Conall Rhodes ar gipio'r drydedd wobr yn y Ras Gyfnewid Rhydd ar gyfer bechgyn blwyddyn 5 a 6. Felly hefyd Enlli Phillips, Beca Jones, Lara Halfpenney, Jenna Rymer ar gipio'r ail wobr ar gyfer merched blwyddyn 3 a 4.

Da iawn pob un ohonoch.

*Congratulations to the following pupils for their success in the Urdd swimming competition which was held recently in Newtown.*

*Iestyn Evans, Aidan Roberts, Ioan Reading and Louis Roberts came first in the relay race for boys year 3 & 4 and Beca Jones got first place in the freestyle relay race for girls years 3 & 4.*

*These pupils will be representing the area in Cardiff on 24th January 2015. Best of luck to you all!*

*Other pupils also came out on top:*

*Congratulations to Iestyn Evans for securing the 3rd prize in the backstroke race for boys Year 3 & 4.*

*Congratulations to Gwern Phillips, Huw Hickman, Joe Williamson and Conall Rhodes for getting third in the freelstyle race for boys years 5 & 6. Enlli Phillips, Beca Jones and Lora Halfpenney, Jenna Rymer also came second for girls Years 3 & 4 .*

*Congratulations to all of you!*

# Diwrnod Siwmper Nadolig






Roedd Dydd Iau, 4 Rhagfyr yn ddiwrnod arbennig yn yr ysgol – diwrnod ein cinio Nadolig a diwrnod gwisgo Siwmper Nadolig. Unwaith eto cafwyd gwledd a hanner gan staff y gegin – Olwen, Marion, Jane a Dawn, a braf oedd gweld y disgyblion yn mynd draw i'r gegin i ddiolch am y cinio blasus.

Roedd y disgyblion a'r staff yn edrych yn hynod o liwgar a Nadoligaidd yn eu siwmperi.

Trefnwyd casgliad anrhydeddus er budd Cronfa Goleuadau a Gweithgareddau Nadolig y Rotari.

*Thursday 4th of December was a special day at the primary campus – it was our Christmas jumpers and Christmas lunch day. Once again we had a fantastic lunch provided by the kitchen staff - Olwen, Marion, Jane and Dawn. It was very nice to see the pupils going to the kitchen to thank the staff for their delicious lunch.*

*The pupils and staff looked fabulously colourful in their jumpers. All proceeds from the collection will be donated to the Rotary Christmas lights and events fund.*

# Cyngerdd Nadolig yng Ngwlad y Rwla



Da iawn i bawb ar gyngerdd wych unwaith eto!



Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig Campws Cynradd Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth fore Llun 8ed Rhagfyr, Nos Fawrth 9ed Rhagfyr, a Nos Fercher 10ed Rhagfyr. Bu mynd mawr ar y tocynnau eto eleni, ac roedd y plant yn edrych ymlaen yn eiddgar i gael perfformio 'Nadolig yng Ngwlad y Rwla' sy'n seiliedig ar gymeriadau cyfres o lyfrau Rwdlan gan Angharad Tomos. Estynnwyd gwahoddiad i blant y Cylch Meithrin a phlant Y Feithrinfa Gymunedol, ynghyd â disgyblion Blwyddyn 7 weld y perfformiad. Cafwyd canmoliaeth uchel iawn yn y gymuned i'r perfformiadau ac rydym fel ysgol yn falch iawn o'r disgyblion a'r staff am eu hymdrechion diflino unwaith eto eleni.

*The Christmas play at the primary campus was held on Monday 8th, 9th and 10th December. There was a big rush for the tickets again this year and the children*




*were looking forward to their performance of "Nadolig yng Ngwlad y Rwla" which is based on the Rwdlan series of books by Angharad Tomos. An invitation was extended to the pupils in the infant department of our school and the infants schools in the community, along with Year 7 to come and watch the performance.*

*High praise was given by the community and we as a School would like to thank the pupils and staff who made these performances so memorable yet again this year.*

# Taith S4C i weld sioe Jonathon





Fis Tachwedd fe aeth criw o ddisgyblion y 6ed dosbarth lawr i Landaf i fod yn rhan o'r gynulleidfa i'r rhaglen Jonathan. Roedd pawb wedi gwisgo eu crysau rygbi ac yn edrych ymlaen i ddechrau'r daith hir ond hwyliog i lawr i'r de. Yn fuan ar ôl cyrraedd fe aethant i mewn i'r stiwdio yn barod i ddechrau ffilmio ond cyn hynny roedd rhaid ymarfer cymeradwyo a gweiddi. Y gwesteion ar y rhaglen oedd Barri Griffiths (Mason Ryan) sef wrestlwr proffesiynol o Gymru a Beca Lyne-Pirkis ynghyd â'r cyflwynwyr arferol sef Sarra Elgan, Nigel Owens a Jonathan ei hun. Cafodd y rhaglen ei dangos ar 21 o Dachwedd ar s4c. Ar ôl diwedd y ffilmio cafodd pawb y cyfle i gwrdd â'r gwestion a chael llun. Erbyn y diwedd roedd pawb wedi blino ac yn llwgu eisiau bwyd felly cafom stop cyflym ym McDonalds ar y ffordd adre a dow oedd o'n dde 'fyd!

In November a gang of sixth formers travelled down to Llandaf to be in the audience of Rhaglen Jonathan. Everyone had put on their rugby shirts and were looking forward to the long bus journey down. Jonathan Davies, Nigel Owens and Sarra Elgan were joined on the sofa by Barri Griffiths and Beca Lyne-Pirkis for an hour of fun and entertainment. The episode was aired on Friday 21st of November on S4/C. After the filming we all had the chance to meet the guests and have photos with them. It was a good experience and we would like to thank Mrs Haf ap Robert for organising this opportunity.

# Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr

Nos Sul, 7 Rhagfyr, bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Nadolig Merched y Wawr yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth. Diolch i Mrs. Lydia Jones am eu hyfforddi.

On Sunday 7th of December a number of our pupils took part in the Christmas service for *Mercher y Mawr* in the Maengwyn Chapel, Machynlleth. Thanks to Mrs. Lydia Jones for instructing them.

Ysgol Bro Hyddgen




Gardd goffa Miss Mared Elfyn / *Miss Mared Elfyn's Memorial Garden*